# Rheolwr Gwybodaeth am y Farchnad

## Cyflog: £50,364 - £53,982 y flwyddyn (Gradd 11)

## Math o gontract: Llawn amser (36.5 awr yr wythnos); Parhaol

**Y rôl:**
Mae'r Rheolwr Gwybodaeth am y Farchnad yn gyfrifol am ddarparu mewnwelediad o ansawdd uchel i lywio'r penderfyniadau ynghylch strategaeth o ran cynhyrchion a dylunio cymwysterau, ar draws portffolio cymwysterau CBAC. Mae'r rôl yn darparu deallusrwydd o ran y farchnad, cystadleuwyr, polisi a chwsmeriaid i gefnogi adolygiadau o berfformiad cynnyrch a chynllunio ehangach yn CBAC; gan sicrhau bod penderfyniadau o ran cynhyrchion yn seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth am y farchnad, ac yn cyd-fynd ag anghenion cyfredol a newydd y farchnad.

**Yr unigolyn:**
Rydym yn chwilio am weithiwr proffesiynol dadansoddol â mewnwelediad sy'n gallu trawsnewid ymchwil yn argymhellion clir a strategol. Byddwch yn gyfathrebwr cryf, sy'n gallu cyflwyno mewnwelediadau i'r farchnad, polisïau ac asesiadau mewn ffordd hygyrch. Bydd gennych chi brofiad o gynnal ymchwil marchnata, cynhyrchu adroddiadau a mewnwelediadau clir, a chefnogi gweithgareddau fel dadansoddi cystadleuwyr, rhagfynegi, neu ymatebion polisi. Mae dealltwriaeth gref o dirwedd cymwysterau a sgiliau y DU yn hynod ddymunol a byddai profiad mewn cyrff asesu neu ddyfarnu addysgol o fantais.

**Ein buddion:**
Yn CBAC, rydym yn falch o fod yn lle cynhwysol a chefnogol i weithio. Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o fuddion ardderchog, gan gynnwys: 25 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn (yn ogystal ag 16 o wyliau statudol / ychwanegol) wedi'i addasu ar gyfer patrymau gweithio rhan amser a chywasgedig, gwersi Cymraeg am ddim, cynllun pensiwn hael a nifer o bolisïau sy'n ystyriol o deuluoedd. Gall dilyn gyrfa gyda CBAC fod yn hynod o werthfawr a byddwch chi'n cael eich annog i ddilyn y cyfleoedd gwych sydd ar gael i ddatblygu eich sgiliau, yn broffesiynol ac yn bersonol.

Mae CBAC yn gweithredu ar sail model gweithio hybrid, sy'n galluogi'r ymgeisydd llwyddiannus i rannu ei amser rhwng gweithio yn swyddfeydd CBAC a gweithio gartref, gan ddibynnu ar anghenion busnes. Oherwydd hynny, gwahoddir ceisiadau gan unigolion o ledled y DU ond noder y bydd gofyn gweithio'n rheolaidd yn ein swyddfeydd yng Nghaerdydd ar gyfer y rôl hon. Gellir trafod hyblygrwydd, ond ar hyn o bryd mae'r tîm yn y swyddfa o leiaf un diwrnod y mis ar gyfartaledd. Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol ond gwerthfawrogir y parodrwydd i ddysgu'r iaith bob amser.

I gael gwybod mwy am y rôl, neu am weithio gyda ni, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â Felicity Spacie (hi/ei) (Felicity.Spacie@cbac.co.uk), a fydd yn fwy na pharod i ateb eich cwestiynau.

**Ewch i'n gwefan i lawrlwytho copi o'r disgrifiad swydd a'r ffurflen gais.**

## Dyddiad cau: 23:59, dydd Sul 12 Ebrill 2026

**Rhagwelir cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb, ar dydd Mawrth 21 Ebrill 2026**

245 Western Avenue, Cardiff CF5, 2YX
Tel 029 2026 5002 / 5189 / 5015
www.wjec.co.uk

# DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Rheolwr Gwybodaeth am y Farchnad** |
| **Adran:** | Datblygu Cymwysterau |
| **Isadran:** | Cymwysterau ac Asesu |
| **Yn atebol i:** | Cyfarwyddwr Cynnyrch |
| **Gradd:** | I'w Gadarnhau |
| **Lleoliad:** | Rhodfa'r Gorllewin/Trefforest |

## Prif bwrpas y Swydd:

Mae'r Rheolwr Gwybodaeth am y Farchnad yn gyfrifol am ddarparu mewnwelediad, dadansoddi ac ymchwil o ansawdd uchel i lywio'r broses wneud penderfyniadau ar gyfer strategaeth o ran cynnyrch a dylunio cymwysterau, ar draws portffolio cymwysterau CBAC.

Yn atebol i'r Cyfarwyddwr Cynnyrch, mae'r rôl yn darparu deallusrwydd o ran y farchnad, cystadleuwyr, polisi a chwsmeriaid i gefnogi adolygiadau'r tîm Datblygu Cymwysterau o berfformiad cynnyrch a chynllunio sefydliadol ehangach. Mae deiliad y swydd yn sicrhau bod penderfyniadau o ran cynhyrchion yn seiliedig ar dystiolaeth, gwybodaeth am y farchnad, ac yn cyd-fynd ag anghenion cyfredol a newydd, gan alluogi CBAC i ymateb yn rhagweithiol i newidiadau yn nhirwedd addysg a sgiliau y DU.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

**Mewnwelediadau strategol: polisi, marchnad a chystadleuaeth**

- Arwain y gwaith systematig o gasglu, coladu, dadansoddi a dehongli data ar alw cymwysterau, tueddiadau'r sector, anghenion cyflogwyr, ac ymddygiad dysgwyr, er mwyn cynnig argymhellion clir – gan ddefnyddio gwybodaeth feintiol ac ansoddol a gasglwyd o bob rhan o CBAC a thu hwnt.
- Arwain y broses o gyflwyno syniadau i gynigion cychwynnol i'w hystyried.
- Cynnal dadansoddiadau o gystadleuwyr yn rheolaidd, gan gynnwys prisio, strwythurau cymwysterau, modelau asesu, a lleoli portffolios.
- Gweithio gyda'r tîm Masnachol i gynhyrchu adroddiadau tirwedd y farchnad, nodi bylchau, cyfleoedd, risgiau a meysydd twf ar draws sectorau.
- Olrhain cymwysterau, rheoliadau a datblygiadau polisi sgiliau, rheolau cyllid, a newidiadau rheoleiddiol sy'n effeithio ar gymwysterau y DU a chenhedloedd datganoledig.
- Drafftio ymatebion i'r ymgynghoriad a safbwyntiau polisi sy'n gysylltiedig â'r marchnadoedd cymwysterau, i gefnogi ein hymgysylltiad â llywodraethau, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid ehangach, o dan gyfarwyddyd y tîm Arwain Gweithredol ac uwch staff Cymwysterau ac Asesu.

**Mewnwelediadau i gynhyrchion: ymchwil a dadansoddeg data**

- O dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Cynnyrch ac uwch staff Cymwysterau ac Asesu eraill, dylunio a chyflwyno projectau ymchwil – meintiol ac ansoddol – i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynhyrchion, adolygu perfformiad cynhyrchion, a strategaeth fasnachol.

- Ymgysylltu â chanolfannau, cyflogwyr, cyrff y diwydiant, a sefydliadau'r sector i gasglu mewnwelediad cynradd.
- Comisiynu a rheoli cyflenwyr ymchwil, dadansoddwyr allanol, neu arbenigwyr deunydd pwnc pan fo angen, yn unol â pholisïau caffael CBAC a chyllidebau ac amserlenni y cytunwyd arnynt.
- Cynrychioli CBAC mewn digwyddiadau sector, grwpiau ymchwil, a sesiynau briffio polisi.
- Cyflenwi mewnwelediad i'r farchnad a pholisi i lywio cwmpasu, dylunio a dilysu cymwysterau newydd. Bydd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn cyfnodau darganfod a phrofi cysyniadau, ymchwil defnyddwyr, ac ymgynghoriadau ehangach i sicrhau bod cynhyrchion newydd yn mynd i'r afael â galw gwirioneddol y farchnad.

**Perfformiad Cynhyrchion**

- Darparu tystiolaeth – gan gynnwys asesiadau risg – i lywio penderfyniadau ar ddatblygu, diwygio a thynnu cynhyrchion yn ôl. Bydd hyn yn cynnwys coladu data ar weithrediad a pherfformiad asesiad, gwybodaeth am y farchnad, ac adborth cwsmeriaid a rhanddeiliaid.
- Gweithio gyda'r adrannau Cynnyrch a Masnachol ehangach i sicrhau bod strategaethau cynnyrch wedi'u seilio ar ddata cadarn am y farchnad, gan gynnwys adborth canolfannau a mewnwelediadau cystadleuwyr.

**Cyfathrebu mewnwelediad ac arwain**

- Sicrhau bod adroddiadau, cyflwyniadau a sesiynau briffio ynghylch mewnwelediad yn hygyrch, y gellir gweithredu arnynt, a'u bod yn cael eu cyfathrebu'n glir i randdeiliaid mewnol.
- Darparu gofynion i'r timau Deallusrwydd Busnes a Gwerthiant a Marchnata i ddatblygu dangosfyrddau data, modelau rhagfynegi, a metrigau i ragweld ac olrhain niferoedd sy'n dewis cymwysterau, cyfran o'r farchnad, a thueddiadau perfformiad.
- Hyrwyddo diwylliant o wneud penderfyniadau wedi'i ysgogi gan ddata ar draws yr adran Cynnyrch ac ar draws CBAC.

**Arall**

- Deall a chydymffurfio â holl bolisïau a gweithdrefnau CBAC a nodir yn y Llawlyfr Staff; yn benodol, sicrhau eich bod yn deall eich rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â Diogelu, Diogelwch Gwybodaeth, GDPR, Cyfrinachedd, yr iaith Gymraeg ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
- Cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi egwyddorion ac arfer cydraddoldeb cyfle fel y'i nodir ym Mholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CBAC, gan ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob project, polisi ac arfer.
- Bod yn aelod rhagweithiol o'r tîm, gan gyfrannu'n gadarnhaol at gyfarfodydd a phrojectau i gefnogi nodau ac amcanion CBAC.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu personol a phroffesiynol sy'n berthnasol i'r rôl.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ôl y galw sy'n gymesur â gradd y swydd.

## Manyleb y Person

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Rheolwr Gwybodaeth am y Farchnad |
| **Adran:** | Datblygu Cymwysterau |

Meini prawf hanfodol yw’r sgiliau a’r profiad sy'n angenrheidiol i gyflawni'r rôl hon. Meini prawf hynod ddymunol yw’r sgiliau a’r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol. Meini prawf dymunol yw’r rhai a fyddai’n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad yn y rôl.

## Sgiliau a Galluoedd

**Hynod Ddymunol**

- Y gallu i ddadansoddi, dehongli a chyflwyno data ansoddol a meintiol cymhleth, gan ddefnyddio technegau ystadegol fel y bo'n briodol.
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar cryf, y gallu i drawsnewid mewnwelediadau cymhleth o'r farchnad, polisi ac asesiadau yn argymhellion clir, y gellir gweithredu arnynt.
- Y gallu i weithio'n annibynnol gan ddefnyddio menter eich hun a chydweithio yn rhan o dimau ar draws swyddogaethau, gan reoli llwythi gwaith yn effeithiol i fodloni terfynau amser.
- Gallu rhagorol i dalu sylw i'r manylion, yn enwedig mewn tasgau sy'n ymwneud â dilysu data, adrodd ar fewnwelediadau, a sicrhau ansawdd.
- Sgiliau ymgysylltu â rhanddeiliaid a dylanwadu ar randdeiliaid cryf, gan gynnwys y gallu i weithio gyda thimau mewnol, uwch arweinwyr, a phartneriaid allanol.
- Y gallu i nodi a chyfathrebu risgiau neu broblemau posibl a chynnig atebion ymarferol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Lefel uchel o lythrennedd digidol, gyda hyfedredd mewn offer Microsoft Office (Teams, Word, Excel a PowerPoint) a'r gallu i ddysgu sut i ddefnyddio meddalwedd newydd yn gyflym.

**Dymunol**

- Sgiliau iaith Gymraeg.
- Bid yn gyfarwydd ag offer delweddu data, dangosfyrddau, neu feddalwedd gwybodaeth busnes (e.e., Power BI, Tableau).
- Sgiliau cyflwyno ar gyfer digwyddiadau allanol, grwpiau ymchwil, neu fforymau polisi.

## Gwybodaeth

**Hynod ddymunol**

- Dealltwriaeth gref o sector cymwysterau'r DU, gan gynnwys un neu fwy o'r canlynol:
  - Fframweithiau rheoleiddio yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.
  - Polisïau sgiliau, addysg a chymwysterau cyfredol a newydd ledled y DU.
  - Strwythurau cymwysterau cystadleuwyr, eu modelau asesu a’u lleoliad yn y farchnad.
- Dealltwriaeth o egwyddorion asesu ac arfer gorau mewn dylunio cymwysterau.
- Deunydd pwnc neu wybodaeth alwedigaethol sy'n berthnasol i ddatblygu cymwysterau a sectorau'r farchnad.

**Dymunol**

- Dealltwriaeth o fframweithiau sicrhau ansawdd o fewn cyrff dyfarnu.
- Gwybodaeth am y sector neu alwedigaethol gyfredol wedi'i chefnogi gan Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus diweddar.
- Ymwybyddiaeth o egwyddorion masnachol gan gynnwys prisio, anghenion cwsmeriaid, a dynameg y farchnad.

## Profiad

**Hynod Ddymunol**

- Profiad o weithio mewn amgylcheddau asesu addysgol, yn ddelfrydol o fewn corff dyfarnu.
- Profiad ar draws un neu fwy o'r canlynol:

    - Cynnal neu reoli projectau gwybodaeth am y farchnad, ymchwil, dadansoddi, neu fewnwelediad o’r farchnad.
    - Dehongli a syntheseiddio data i gefnogi strategaeth cynnyrch, datblygu cynnyrch, neu wneud penderfyniadau masnachol.
    - Cynhyrchu adroddiadau, briffiau, neu grynodebau mewnwelediad o ansawdd uchel ar gyfer uwch randdeiliaid.
    - Cynnal neu gefnogi dadansoddiadau o gystadleuwyr, rhagfynegi, neu sganio'r farchnad.
- Profiad o gyfrannu at neu ddrafftio safbwyntiau polisi neu ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Dymunol**

- Profiad o ddylunio a gweithredu dulliau gwella parhaus neu fentrau newid.
- Profiad o oruchwylio neu reoli staff, cyflenwyr ymchwil, neu ddadansoddwyr allanol.
- Profiad o gefnogi prosesau datblygu cynnyrch fel camau darganfod, profi cysyniadau, neu ymchwil defnyddwyr.
- Profiad o weithio gyda thimau rheoli portffolio, rheoli newid, neu gyflwyno projectau.

## Telerau ac Amodau Gwasanaeth / *Terms and Conditions of Service*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd /** *Job Title:* | **Rheolwr Gwybodaeth am y Farchnad /** *Market Intelligence Manager* | | |
| **Cyflog /** *Salary:* | **£50,364 - £53,982 y flwyddyn (pro-rata lle y bo'n gymwys /** *£50,364 - £53,982 per annum (pro-rata where relevant)* | **Gradd /** *Grade:* | 11 |
| **Gwyliau Blynyddol /** *Annual Leave:* | **25 diwrnod (182.5 awr) y flwyddyn. Mae CBAC hefyd yn darparu 16 diwrnod (116.8 awr) i gyfrif am Wyliau Cyhoeddus a chyfnodau Cau CBAC (gwyliau ychwanegol). Mae'r lwfansau hyn yn cael eu haddasu ar gyfer staff sy'n gweithio'n rhan-amser neu batrymau gweithio cywasgedig.** *25 days (182.5 hours) per annum. WJEC also provides 16 days (116.8 hours) to account for Bank Holidays and WJEC Closure periods (Additional leave). These allowances are adjusted for staff who work part-time or compressed working patterns.* | | |
| **Pensiwn /** *Pension:* | **Mae gofynion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn berthnasol.** *The provision of the Local Government Pension Scheme (LGPS) applies.* | | |

### Math o Gytundeb / *Contract Type:*

| **Oriau Gwaith /** *Working Hours:* | **Hyd y Contract /** *Length of Contract:* |
|---|---|
| ☒ **Llawn-amser** / *Full-time* | ☒ **Parhaol /** *Permanent* |
| ☐ **Rhan-amser** / *Part-time*<br>**Nifer yr oriau yr wythnos /** *No. of hrs per week:* 36.5 | ☐ **Tymor penodol /** *Fixed-term*<br>**Dyddiad gorffen arfaethedig /** *Planned end date:*<br>**Rheswm dros y cyfnod penodol /** *Reason for fixed-term:* |

**Arall /** *Other:*

**Cyfnodau prysur llwyth gwaith /** *Workload Peaks:* **Amh /** *N/A*

### Dull Ymgeisio / *Method of Application:*

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost at AD@cbac.co.uk erbyn **23:59, dydd Sul 12 Ebrill 2026**.
**Rhagwelir cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb, ar dydd Mawrth 21 Ebrill 2026.**

Completed forms should be sent by email to hr@wjec.co.uk by **23:59, Sunday 12 April 2026.**
**Interviews are anticipated to be held in person, on Tuesday 21 April 2026.**